

## Grŵp Trawsbleidiol ar Hinsawdd, Natur a Lles

17:00 – 18:00

13.10.2022

Cyfarfod rhithwir (drwy Zoom)

### Agenda

1. Croeso a chyflwyniadau  
**Delyth Jewell AS**
2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf  
**Delyth Jewell AS**
3. **Llysgenhadon Hinsawdd Ieuencid Cymru**
4. **Dr Maria Kett**, Athro Cyswllt mewn Dyngariaeth ac Anabledd, Sefydliad Epidemioleg a Gofal Iechyd UCL
5. Unrhyw fusnes arall  
**Delyth Jewell AS**

### Camau i'w cymryd

- Cysylltu â siaradwr y Cenhedloedd Cyntaf
- Pennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.
- Cysylltiadau allweddol i'w rhannu

**Yn bresennol:** Antonia Fabian, Anouchka Grose, Caitlyn Williams, Emily Darney, Gwenda, Joe Rossiter, Kate Lowther, Kathryn Speedy, Liz Williams, Madelaine Phillips, Maria Kett, Molly Hucker, Ollie John, Rhiannon Hardiman, Ryland Doyle

**ASau yn bresennol:** Delyth Jewell AS, Huw Irranca-Davies AS

### Cofnodion

1. Croeso a chyflwyniadau
2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Delyth Jewell AS

- Croeso
- Mae'r cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion cymryd cofnodion

- Os hoffech gyfrannu yn Gymraeg, nid oes gwasanaeth cyfieithu swyddogol ond byddaf yn ei gyfieithu i'r Saesneg
  - Rydym wedi cael seibiant hir, yn enwedig i roi seibiant i bobl ifanc dros yr haf, ac yn awr rydym yn ailfywiogi'r grŵp ac yn darganfod beth mae pawb wedi bod yn ei wneud
  - Byddwn yn clywed gan ein Llysgenhadon Hinsawdd Ieuencid yn ogystal â Dr Maria Kett
  - I unrhyw un sy'n newydd i'r grŵp, pwrpas y grŵp yn rhannol yw gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a chydabod y cydgysylltiadau rhwng yr argyfyngau hinsawdd a natur, pobl ac iechyd meddwl. Mae'n rhywbeth sy'n effeithio ar bobl o bob oed ac mae agwedd ryng-genhedlaeth iawn i'n gwaith fel grŵp
  - Mae hyn yn rhywbeth sy'n effeithio ar bobl ifanc mewn ffordd arbennig ac yn rhannol i gydnabod hyn mae'r Llysgenhadon Hinsawdd Ieuencid yn cydarwain y grŵp hwn, mae eitem sefydlog yn y cyfarfodydd hyn iddynt roi diweddariad i ni.
- Llofnodwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf gan Delyth Jewell AS

### 3. Llysgenhadon hinsawdd Ieuencid Cymru

Emily Darney

- Cynhaliodd Llysgenhadon Hinsawdd Ieuencid (YCA) ddigwyddiad ar-lein am ffoaduriaid hinsawdd ar gyfer Wythnos Fawr Werdd, sef un o'r prif bwyntiau yn ein maniffesto
- Eleni buom yn gweithio gyda straeon undod ac Oasis Caerdydd, rhannodd rhai ffoaduriaid eu straeon a rhoesom fwy o wybodaeth i bobl am beth fyddai ffoadur hinsawdd
- Gweithio ar ddeiseb i wneud 'Ffoadur Hinsawdd' yn statws cydnabyddedig, mae hyn yn ei ddyddiau cynnar o hyd ac rydym yn bwriadu ei chael yn barod ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Os hoffai unrhyw un ei gefnogi neu gael mwy o wybodaeth e-bostiwch y llysgenhadon
- Ddydd Sadwrn mae gennym gyfarfod gyda'r Wampis Youth, grŵp cynhenid, i weld sut mae newid hinsawdd yn effeithio arny'n nhw a sut i helpu i chwyddo eu lleisiau.
- Ar yr 8<sup>ed</sup> a 10<sup>ed</sup> Tachwedd rydym yn cynnal COP Ieuencid yng Nghaerdydd i redeg ochr yn ochr â COP 27 i ddod â phlant ysgol at ei gilydd a dangos iddynt beth yw COP

Delyth Jewell AS

- Gwych clywed beth mae'r llysgenhadon yn ei wneud
- Mae COP yn sefyll am Conference of Parties ac mae'r egwyddor yn ymwneud â dod â phobl at ei gilydd

Anouchka Grose

- Hoffwn glywed mwy am sut y daeth grŵp y llysgenhadon ynghyd a beth i'w ddweud wrth bobl eraill sydd eisiau gwneud y math hwnnw o beth, sut mae'r cyfan yn gweithio?

Emily Darney

- Mae'r grŵp yn cael ei hwyluso gan Maint Cymru a dechreuodd fel grŵp yn ystod y cyfnod cloi cyntaf ac ymunais flwyddyn yn ddiweddarach
- Mae gennym ni rai cyfarfodydd wyneb yn wyneb ond mae ar Zoom yn bennaf
- Os oes gan unrhyw un ohonom bwnc yr ydym am wneud rhywfaint o waith arno rydym yn ei rannu a bydd y grŵp yn penderfynu a hoffem weithio arno.
- Rydym yn bennaf yn cynnal digwyddiadau neu ddigwyddiadau rhithwir fel y COP neu eco-ysgolion

Anouchka Grose

- Sut mae'r eco-ysgolion yn dod o hyd i chi?

Emily Darney

- Rydyn ni'n postio llawer ar gyfryngau cymdeithasol, Instagram yn bennaf, ac rydyn ni'n postio llawer o ymgyrchoedd ar hynny
- Fe wnaethom ni ymgyrch bioamrywiaeth yn gynharach yn y flwyddyn a gwneud cysylltiadau newydd drwy hynny, felly mae'n bennaf trwy rannu gwybodaeth

Delyth Jewell AS

- Mae hynny'n wych, a oes gan unrhyw un arall unrhyw gwestiynau?
- Mae'r grŵp hwn i fod mor anhierarchaidd â phosibl i sicrhau bod llais pawb yn cael ei chwyddo
- Bydd newid hinsawdd yn effeithio ar bobl ifanc yn bennaf felly mae angen i ni wneud yn siŵr bod y platfform yno i bobl ifanc hefyd

4. Dr Maria Kett, Athro mewn Dyngariaeth ac Anabledd, Sefydliad Epidemioleg a Gofal Iechyd UCL

Delyth Jewell AS

- Byddwn yn awr yn clywed gan Dr Maria Kett sy'n athro cyswllt mewn dyngariaeth ac anabledd yn Sefydliad Epidemioleg a Gofal Iechyd UCL. Mae Dr Kett yn anthropolegydd cymdeithasol trwy hyfforddiant, mae hi wedi gweithio mewn dros ddwsin o wledydd yn Affrica ac Asia, gan arwain ar nifer o raglenni ymchwil ar anabledd a Datblygiad Rhyngwladol.
- Mae Doctor Kent yn gyd-sylfaenydd y Global Disability Innovation Hub, gan arwain ar y gwaith dyngarol y maent yn ei wneud. Mae hi'n mynd i fod yn siarad â ni am anabledd a newid hinsawdd

Dr Maria Kett

- Diolch i Liz am fy ngwahodd i siarad

- Rwyf bob amser wedi ceisio sicrhau bod fy ngwaith yn cael ei ddefnyddio yn y byd go iawn ac yn gweithio gyda phobl yr effeithir arnynt, a phobl ag anableddau yn arbennig.
- Mae pobl ag anableddau yn cael eu heffeithio'n fwy gan newid hinsawdd ac maent mewn mwy o berygl o gael eu hanafu neu farw o argyfyngau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, megis llifogydd, daeargrynfeydd.
- Mae diogelwch bwyd a phrinder adnoddau hefyd yn debygol o effeithio'n fwy ar bobl anabl
- Hyd yn eithaf diweddar, nid oedd pobl ag anableddau yn ymwneud llawer â phrosesau gwneud penderfyniadau allweddol megis fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar newid yn yr hinsawdd
- Mae tymheredd cynyddol yn effeithio ar lawer o bobl, yn enwedig pobl oedrannus ond hefyd pobl â chyflyrau iechyd penodol, fel sglerosis ymlledol
- Yn fyd-eang mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio a phoblogaeth gynyddol drefol. Rydym yn gweld digwyddiadau gwres cynyddol ac anallu ein hamgylchedd presennol i ddelio â hynny
- Mae anghydbwysedd pŵer sy'n gwneud pobl ag anableddau mewn mwy o berygl oherwydd newid yn yr hinsawdd, y strwythurau cymdeithasol sy'n gwneud pobl ag anableddau yn fwy agored i'r effeithiau hynny
- Nid yw pobl ag anableddau o reidrwydd yn gwybod am rai o'r mesurau lliniaru na'r sgysiau sy'n digwydd ynghylch rhai o'r materion hyn, felly nid ydynt o reidrwydd yn ymgysylltu ac nid yw sefydliadau pobl ag anableddau yn cael eu cynrychioli mewn fforymau hinsawdd ac yn y Cenhedloedd Unedig.
- Yn ddiweddar, gofynnodd Llywodraeth y DU a Swyddfa Datblygu'r Gymanwlad Dramor i ni ymchwilio i gynnwys pobl ag anableddau a'u gwydnwch hinsawdd mewn ymchwil yn 2018.
- Rhoddodd hyn y cyfle i ni weithio gyda chydweithwyr yn Bangladesh a Kenya
- Gwelsom bryd hynny, a chyda gwaith diweddarach a wnaethom yn 2021, nad oedd llawer iawn o waith ymchwil ar bobl ag anableddau, ac i effaith newid yn yr hinsawdd ar bobl ag anableddau ac i ba raddau y mae gweithgareddau newid yn yr hinsawdd yn cynnwys pobl ag anableddau
- Mae persbectif yr Open Society Foundation yn ddiddorol iawn oherwydd roedden nhw wir yn edrych ar gyfiawnder hinsawdd a sut rydych chi'n mynd i'r afael ag anghydbwysedd y bobl dlotaf yn y byd, sef y rhai lleiaf tebygol o achosi'r allyriadau sy'n creu newid yn yr hinsawdd, a'r mwyaf tebygol o gael eu heffeithio ganddynt.
- Mae'r ymchwil ar gael ar-lein a'r hyn a welsom yw nad oedd llawer o wahaniaeth rhwng 2018 – 2021
- Mae allgau pobl ag anableddau wedi arwain at ffocws ar argyfyngau, rheoli risg trychineb, yn hytrach na chamau gweithredu hirdymor
- Yn fyd-eang mae yna ddeddfwriaeth eithaf cryf i gefnogi cynnwys pobl ag anableddau mewn lleihau risg trychineb ond mae angen i ni edrych yn fwy at y dyfodol ac atal yr effeithiau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf.
- Byddem yn dweud o'n hymchwil nad yw pobl wedi eithrio pobl ag anableddau yn fwriadol ond nid oedd y bobl hyn wedi'u cynnwys yn weithredol felly mae angen i ni wneud mwy o bethau i'w cynnwys, megis braille, hygyrchedd ac ati.

- Mae pethau'n dechrau newid ac mae ymwybyddiaeth gynyddol o gynnwys pobl ag anableddau, yn rhannol oherwydd ers 2008 mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wedi bod ac mae hyn yn cael effaith graddol.
- Mae'r mesurau ymaddasol wedi'u seilio ar newid cymdeithasol ac economaidd dyfnach yn hytrach nag addasu'r systemau presennol yn gynyddol, mae'n ymwneud llawer mwy â dod â grwpiau at ei gilydd
- Mae'n rhaid cael cyfaddawd gyda phobl ag anableddau, nid oedd rhai o'r materion hinsawdd bob amser y mwyaf buddiol i bobl ag anableddau, er enghraifft gwellt plastig – mae'r syniad o wahardd plastigion yn angenrheidiol i'r amgylchedd ond mae angen gan pobl â namau am hyn
- Mae angen inni gael dadleuon ynghylch sut mae'r hyn sy'n gweithio i un grŵp yn cael effaith anfwriadol ar grŵp arall, felly mae'n ymwneud â chyfaddawdau a blaenoriaethau ar gyfer gwahanol grwpiau.
- Os ydym yn sôn am gymdeithas gynhwysol yna nid yw'n ymwneud ag addasu anabledd ac ati, mae'n ymwneud ag addasu hinsawdd ehangach.
- Mae angen dod â phobl ag anableddau i mewn i'r trafodaethau, ac rwy'n meddwl y bydd yn cael mwy o flaenoriaeth yn y COP sydd ar ddod gyda grwpiau cynrychioliadol yn cael eu cynnwys
- Bydd y COP hwn yn canolbwyntio ar golled a difrod, ac mae'n ymwneud â sut mae pobl yn cael eu digolledu am y difrod a achosir i'w hamgylchedd gan wledydd neu ddiwydiannau incwm uwch.

Delyth Jewell AS

- Diolch yn fawr iawn
- Unrhyw gwestiynau?
- Gellir hefyd e-bostio cwestiynau at Dr Kett, bydd y cyfeiriad yn cael ei ddsbarthu gyda'r cofnodion
- Mae'r byd wedi'i gynllunio ar gyfer pobl nad oes ganddynt anableddau ac yna mae angen gwneud addasiadau ar gyfer pobl ag anableddau, mae'n siŵr mai dyna'r ffordd anghywir o gwmpas a dylem fod yn dylunio pethau mewn ffordd llawer mwy cynhwysol.
- Roedd y pwynt ynghylch gwellt plastig yn ddiddorol oherwydd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer gwahardd rhai mathau o blastig untro ond mae'r pwynt wedi codi yn y pwyllgor y byddai gwahardd gwellt plastig yn wirioneddol annheg ar bobl sydd angen eu defnyddio oherwydd eu anableddau

Dr Kett

- Mae pobl yn aml yn sôn am feicio ar y pwynt hwn oherwydd nid yw lonydd beicio mor hawdd i bobl â nam ar eu golwg
- Hefyd nid yw newid lliw y croesfannau, yn enwedig i wneud celf, yn hawdd i bobl â nam ar eu golwg ei ddefnyddio
- O fewn y 18 mis diwethaf mae'r gymuned anabledd wedi dod at ei gilydd ar lefel ryngwladol. Mae yna'r Gynghrair Anabledd sy'n gynghrair o sefydliadau cenedlaethol a phobl ag anableddau i greu rhestr glir o flaenoriaethau ac mae pob cyfandir yn y byd yn cael ei gynrychioli.

Liz Williams

- I bobl â nam ar eu golwg mae rhwystrau ar bob cam o gael mynediad at gyfarfod lle nad yw'r wybodaeth a rennir yn hygyrch, neu ni allant gael trafnidiaeth gyhoeddus, neu ni allant fforddio tacsï, felly mae pob mathau o rwystrau
- A wyddoch chi am unrhyw enghreifftiau lle mae pobl anabl wedi cymryd rhan yn y gwaith hwn a lle mae cydgyhyrchu wedi digwydd yn effeithiol iawn?

Dr Kett

- Mae Vanuatu yn un y mae pobl yn ei ddefnyddio fel enghraifft dda ar hyn o bryd. Mae ganddynt gymuned anabl eithaf gweithgar ac maent wedi cyflwyno cynllun gweithredu cynhwysol i bobl anabl.
- Yr hyn sy'n bwysig yw a yw llywodraethau'n cefnogi materion i bobl ag anableddau
- Mae Kenya wedi bod yn gefnogol iawn i hawliau i bobl ag anableddau

Ollie John

- Mae hyn yn ymwneud â'r angen o hyd i ddeall hyd a lled allgau
- Rydym wedi bod yn ymwneud â rhywfaint o waith ar anghydraddoldebau iechyd meddwl ac mae wedi bod yn heriol cyflwyno tystiolaeth o ddogfennau i wneud cyfiawnder ag ef a byddai gennyf ddiddordeb mawr yn y pwynt hwnnw a'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd i ddeall hyn orau.

Dr Kett

- Rydym wedi dod yn dda iawn yn y gymuned anabl am wneud pwyntiau o egwyddorion e.e. dylai pethau fod yn hygyrch ac yn deg
- Mae gennym dystiolaeth o wledydd cyfoethocach fel yr Unol Daleithiau i wybod pa grwpiau sy'n cael eu heffeithio fwyaf ond oni bai bod pobl yn casglu'r data ni fyddwn yn gwybod, ac nid oes llawer wedi'i gasglu mewn llawer o wledydd eraill
- Mae'n ymwneud â throsi ein pwyntiau o egwyddor yn gamau gweithredu penodol iawn

Ollie John

- Diolch i chi, a dyna'r pwynt hefyd ar y ffocws ar leihau'r risg o drychinebau yn y presennol yn hytrach na mesurau yn y dyfodol

Delyth Jewell AS

- Yn bendant, ac mae hynny'n bwynt tebyg i'r un cynharach o ran ei ddylunio o'r cychwyn cyntaf yn hytrach nag aros am broblem ac ymateb sydd nid yn unig yn ynysu cymunedau ond hefyd ddim yn gwneud synnwyr economaidd.
- Dr Kett, beth sy'n rhoi'r rheswm mwyaf dros obaith i chi?

Dr Kett

- Flwyddyn yn ôl byddwn wedi dweud mai pobl ifanc fydd yn gyrru'r atebion mewn gwirionedd ond es i weithdy ynghylch pryder hinsawdd a'r peth cyntaf a ddywedodd un o'r bobl ifanc oedd pam fod yn rhaid iddynt feddwl am yr holl atebion pan nid nhw a greodd y problemau
- Rwy'n meddwl y bydd cymunedau'n dod at ei gilydd ac mae llawer o gyfle ar gyfer arloesi boed hynny'n adeiladu'n ôl yn well neu'n adeiladu amgylcheddau mwy cynhwysol.

5. Busnes arall  
Unrhyw fusnes arall

Delyth Jewell AS

- Gallwn ni i gyd fod yn rhan o'r newid hwn mewn gwahanol ffyrdd ac mae'n wych bod cymaint o aelodau'r grŵp hwn yn poeni digon i ddod i gyfarfod am 5:50 gyda'r nos.
- A oes unrhyw fusnes arall neu a oes unrhyw un arall eisiau diweddarau ar yr hyn y maent yn ei wneud?
- Mae Huw Irranca-Davies newydd ymuno â ni, roedd Emily yn siarad am y gwaith maen nhw'n ei wneud gyda ffoaduriaid hinsawdd a'r COP ieuencid fydd yn digwydd ar yr 8fed<sup>ed</sup> a'r 10<sup>ed</sup>. Mae llawer yn digwydd a byddwn yn anfon e-byst gyda'r manylion

Emily Darney

- Mae un diwrnod yn y Deml Heddwch a'r diwrnod arall yn yr ystafelloedd cyfarfod yn y Pierhead

Delyth Jewell AS

- Rydym hefyd wedi clywed gan Dr Kett am newid hinsawdd ac anabledd
- Roeddem yn siarad am yr hyn sy'n rhoi gobaith i ni

Huw Irranca-Davies AS

- Roeddwn yn ysgrifennu adroddiad ar Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Nova Scotia ac roedd ffocws gwirioneddol ar nodau datblygu cynaliadwy, newid yn yr hinsawdd, cynaliadwyedd ond rhwystredigaeth wirioneddol ynghylch anallu seneddwyr i ddwyn llywodraethau i gyfrif, yn enwedig gan y gwledydd llai sy'n datblygu.
- Roedd diddordeb a gwybodaeth wirioneddol gan seneddwyr y Gymanwlad am ddeddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac yn arbennig y Nova Scotiaid yn myfyrion ar eu pobl Cenedloedd Cyntaf eu hunain a'u hegwyddor 7 cenedlaeth sy'n mynd yn ôl i hen amser y Cenedloedd Cyntaf, sef gwneud penderfyniadau ar sail 7 cenedlaeth i ddod. Yn system Canada mae'n rhaid i chi hefyd ymgynghori â phobl y Cenedloedd Cyntaf ar unrhyw gynllunio.
- Yr hyn a gefais yn diddorol yw ein bod ni yng Nghymru wedi rhoi patrwm deddfwriaethol tebyg ar waith wrth feddwl am genedlaethau'r dyfodol

Delyth Jewell AS

- A fyddai un o'r Canadiaid eisiau dod i gyfarfod o'r grŵp hwn yn y dyfodol a siarad â ni?

Huw Irranca-Davies AS

- Dwi'n siwr. Byddai'n wych cael un o arweinwyr y Genedl Gyntaf i ddod i siarad. Gallaf wneud hynny os yw pobl yn hapus â hyn

Delyth Jewell AS

- A oes gan unrhyw un farn am unrhyw beth yr hoffech i ni ei drafod yn ein cyfarfod nesaf?

Anoushka Grose

- Cyfarfŵm â pherson heddiw a oedd wedi trosi ei bryder eco yn weithred. Mae'n dod o bentref ym Mhacistan ac roedd cwmni mawr eisiau meddiannu'r tir a'i ddefnyddio ar gyfer ffermio dwys ac fe wnaeth ef a'i bentref eu hatal.
- Dywedodd fod hyn wedi'i ysgogi gan ei bryder a'i fod wedi gwneud yr union beth o droi ei bryder eco yn weithred

Delyth Jewell AS

- Ffantastig
- O ran y cyfarfod nesaf nid oes gennym unrhyw beth yn y calendr
- Mae dydd lau tua'r amser yma i weld yn gyfleus felly falle dylen ni fynd am lonawr
- Diolch yn fawr i bawb